

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 6 Chwefror 2020
am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach,
Tonypany, CF40 2XX.

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn
bresennol:-:-**

Y Cyngorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Caple Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd P Jarman Y Cyngorydd G Hughes
Y Cyngorydd J Williams Y Cyngorydd S Powell
Y Cyngorydd W Owen Y Cyngorydd R Yeo
Y Cyngorydd D Williams

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Zeinali, Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr N Pilliner, Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai
Mr G Purnell, Swyddog Rheoli Llygredd
Mr H Towns - Rheolwr Cynllunio Mwynau a Gwastraff,

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd S Pickering

Y Cyngorydd H Fychan
Y Cyngorydd M Powell

180 DATGAN BUDDIANT

Cafodd y datganiadau o fuddiant personol canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

- (1) Yn unol â'r Cod Ymddygiad, datganodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol D. Williams fuddiant personol ynglŷn â Chais Rhif: 15/0666 – Estyniad gorllewinol i'r chwarel bresennol, i gynnwys echdynnu 10 miliwn tunnell ychwanegol o dywodfaen pennant yn raddol, adeiladu byndiau sgrinio, gwaith cysylltiedig, a chydgrynhoi'r holl ganiatadau cynllunio mwynau blaenorol yn Chwarel Craig yr Hesg, gan gynnwys estyn y dyddiad gorffen ar gyfer chwarela a chynllun adfer cyffredinol (gwybodaeth ychwanegol wedi'i nodi yn yr adroddiad "Materion Lles a Iechyd yr Amgylchedd") Chwarel Craig yr Hesg, Heol Berw, Pontypridd. "Rwyf eisoes wedi dod i benderfyniad ar y cais yma ac rwyf wedi bod wrthi'n trafod â thrigolion".
- (2) Yn unol â'r Cod Ymddygiad, datganodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman fuddiant personol ynglŷn â Chais Rhif: 15/0666 – Estyniad gorllewinol i'r chwarel bresennol, i gynnwys echdynnu 10 miliwn tunnell ychwanegol o dywodfaen pennant yn raddol, adeiladu byndiau sgrinio, gwaith cysylltiedig, a chydgrynhoi'r holl ganiatadau cynllunio mwynau

blaenorol yn Chwarel Craig yr Hesg, gan gynnwys estyn y dyddiad gorffen ar gyfer chwarela a chynllun adfer cyffredinol (gwybodaeth ychwanegol wedi'i chyflwyno). "Rwy'n adnabod un o'r siaradwr cyhoeddus."

(Nodwch: doedd y person yma a oedd wedi gofyn am gael annerch y pwyllgor ddim yn bresennol i wneud hynny.)

- (3) Yn unol â'r Cod Ymddygiad, datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Williams fuddiant personol ynglŷn â Chais Rhif: 15/0666 – Estyniad gorllewinol i'r chwarel bresennol, i gynnwys echdynnu 10 miliwn tunnell ychwanegol o dywodfaen pennant yn raddol, adeiladu byndiau sgrinio, gwaith cysylltiedig, a chydgrynhoi'r holl ganiatadau cynllunio mwynau blaenorol yn Chwarel Craig yr Hesg, gan gynnwys estyn y dyddiad gorffen ar gyfer chwarela a chynllun adfer cyffredinol (gwybodaeth ychwanegol wedi'i chyflwyno). "Rwy'n adnabod un o'r siaradwr cyhoeddus."

(Nodwch: doedd y person yma a oedd wedi gofyn am gael annerch y pwyllgor ddim yn bresennol i wneud hynny.)

181 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Grehan.

182 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

183 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

184 Cofnodion

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2019 yn rhai cywir.

185 RHIF Y CAIS: 15/0666

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y

siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Graham Jenkins (Asiant)
- Jacob Williams (Gwrthwynebydd)
- Lacie Mai Davies (Gwrthwynebydd)
- Mr R. A. Davies (Gwrthwynebydd)
- Dr Gareth Lloyd (Gwrthwynebydd)
- Mr Keith Lewis (Gwrthwynebydd)
- Sian Griffiths (Gwrthwynebydd)
- Roy Spry (Gwrthwynebydd)
- Simon Pritchard (Gwrthwynebydd)

Nododd y Pwyllgor nad oedd Mr Clayton Jones (Gwrthwynebydd) na Tara Mardon-Hughes (Gwrthwynebydd) a oedd wedi gofyn am annerch yr Aelodau ar y cais yn bresennol i wneud hynny.

Ymarferodd yr Asiant Graham Jenkins yr hawl i ymateb i'r sylwadau a gafodd eu gwneud gan y gwrthwynebwyr.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Pickering, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig.

(Nodwch: Ar ôl datgan buddiant yn y cais yn flaenorol (Cofnod Rhif 180), arferodd yr Aelod o'r Pwyllgor/Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Williams, ei hawl i annerch y Pwyllgor ar y cais o dan adran 14(2) o'r Cod Ymddygiad. Amlinellodd ei bryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ddilynol).

Amlinellodd Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys pum llythyr 'hwyr'. Cyflwynwyd y llythyr cyntaf gan Vikki Howells AC yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig oherwydd yr effaith y byddai'n ei chael ar eiddo trigolion lleol, a'u hiechyd a'u lles, yn ogystal â'r cynnydd posibl mewn cerbydau a fyddai'n achosi problemau o ran traffig a'r priffyrdd. Amlinellodd Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys y llythyrau 'hwyr' eraill hefyd – cyflwynwyd y rhain gan Gyngor Tref Pontypridd a thrigolion lleol yn gwrthwynebu'r cynnig.

Hefyd, cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys llythyr a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn 2016 gan y cyn Aelod Seneddol Owen Smith yn amlinellu pryderon ynghylch y cais.

Dywedodd Pennaeth Materion Cynllunio wrth yr Aelodau fod yr holl faterion a nodwyd yn y llythyrau wedi cael sylw yn yr adroddiad.

Adroddodd Pennaeth Materion Cynllunio ar lafar am gywiriad i eiriad amod 27 sydd wedi'i restru yn yr adroddiad. Cadarnhaodd eiriad yr amod newydd, sef:

Rhwng 19:00 a 07:00 ni chaiff y Lefel Sŵn Barhaus Cyfwerth â maes rhydd LAeq (1 awr) o ganlyniad i waith ar y safle fod yn uwch na 42 dB LAeq ym mhob eiddo sensitif i sŵn a nodwyd yn Nhabl 1 sydd wedi'i osod yn amod 26 uchod.

Dywedodd Pennaeth Materion Cynllunio wrth y pwyllgor fod y Cyngor wedi gofyn am gyngor arbenigol ar y cais hwn, oherwydd nad oes ganddo arbenigwr ym

maes cynllunio mwynau. Cyflwynodd Mr H. Towns, Rheolwr Cynllunio Mwynau a Gwastraff Cyngor Sir Caerfyrddin. Yna, rhoddodd Mr H. Towns drosolwg i'r pwyllgor o'r adroddiad gerbron yr Aelodau a'r rhesymau dros yr argymhelliad ac aeth i'r afael â materion a godwyd gan y siaradwyr cyhoeddus.

Yn dilyn trafodaeth hir, roedd yr Aelodau o blaid gwrthod y cais uchod yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, oherwydd roeddent o'r farn bod yna pryderon dybryd nad oedd y cynigion yn darparu ar gyfer clustogfa ddigonol er mwyn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru. O ganlyniad i hyn, byddai eiddo preswyl ac ysgol yn dioddef oherwydd effeithiau negyddol sylweddol ar amwynderau. Nododd yr Aelodau bryderon hefyd am y goblygiadau o ran iechyd oherwydd ansawdd aer gwael, a phryderon o ran difrod i'r priffyrdd oherwydd cerbydau'n mynd â dod o'r safle. O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

186

GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 18/01/2020 a 24/01/2020.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.45 pm

**Y Cyngorydd S Rees
Cadeirydd.**